# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 17 Ionawr 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(38)v3

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau neu gysylltiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Peacocks yn sgîl datblygiadau diweddar. EAQ(4)0088(BET)

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif (45 munud)

### 4. Datganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth: Cwrdd â'r Her Tai: Creu consensws ar gyfer gweithredu (30 munud)

### 5. Dadl ar Greu Cymunedau Mwy Diogel i bawb – Gwella ansawdd bywyd i bobl Cymru (60 munud)

**NDM4889 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r gwaith sydd wedi'i gyflawni gan Lywodraeth Cymru a'r asiantaethau sy'n bartner iddi i hybu'r agenda Diogelwch Cymunedol ac i greu Cymru ddiogelach i bawb.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu popeth ar ôl "iddi" a rhoi yn ei le:

ar yr agenda Diogelwch Cymunedol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru, gan ymgysylltu'n llawn â phartneriaid i hybu agenda gynhwysol a chreu Cymru ddiogelach i bawb.

**Gwelliant 2 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'n benodol gyfraniad cadarnhaol cynghorau lleol i wella diogelwch cymunedol, er enghraifft drwy gyllido Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a chyflwyno cynlluniau gosod gatiau.

**Gwelliant 3 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd y cynnig:

ond yn credu y byddai hyn yn gwella eto fyth petai plismona'n cael ei ddatganoli i Gymru.

**6. Dadl ar Bolisi Cynllunio ar gyfer Datblygu Economaidd (60 munud)**

**NDM4890 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud wrth ddiweddaru polisi cynllunio ar gyfer datblygu economaidd

Mae'r ymgynghoriad ar "Diwygio Pennod 7 o Bolisi Cynllunio Cymru – Cynnal yr Economi" i'w weld yn

http://wales.gov.uk/consultations/planning/ppwch7consultation/?skip=1&lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod y system gynllunio'n hanfodol ar gyfer economi gref ac felly'n gresynu wrth yr oedi ar ran Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

Gyflwyno Bil Cynllunio Cymru yn gynharach na'r hyn a nodwyd yn y Datganiad Deddfwriaethol, fel y gellir rhoi agwedd strategol ond syml ar waith mewn canllawiau ar draws yr holl sectorau polisi er mwyn gwella'r economi a lles pobl Cymru.

Gellir gweld y Datganiad Deddfwriaethol drwy fynd i:

http://cymru.gov.uk/legislation/programme/?skip=1&lang=cy

Gellir gweld Polisi Cynllunio Cymru drwy fynd i:

http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi ei Bil Cynllunio'n gynharach nag a nodwyd yn ei datganiad deddfwriaethol, ac i ymgynghori'n eang arno, er mwyn helpu i ddiwallu anghenion datblygu economaidd.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mercher, 18 Ionawr 2012